# Management

THINK ABOUT IT

Medi 2008

**Wales Management Council works with partners within and beyond Wales to promote better management performance at all levels in the economy.**

**As part of that task we encourage managers like you to consider how they can expand their own capabilities and become better at what they do.**

**This monthly digest aims to help you, and people like you, to focus more clearly on the practical challenges you face.**

**We don't pretend to have all the answers but we hope these questions promote thinking that is helpful to you.**

**If you have views on any of the issues raised please let us know.**
**gwyneth.stroud@crc-wmc.org.uk**

## Ychydig yn rhy bersonol

Cyhoeddodd cwmni Weightwatchers yn ddiweddar eu bod nhw wedi dechrau gwerthu eu gwasanaethau i gyflogwyr a chynnal dosbarthiadau colli pwysau i staff mewn gweithleoedd ledled Prydain, gan gynnwys gwirio pwysau'n wythnosol ar glorian. Maen nhw'n hawlio y bydd hyn yn helpu i wella iechyd y staff a rhoi hwb i gynhyrchiant.

Faint o ddiddordeb dylai rheolwr ei gymryd yn iechyd a ffordd o fyw staff? A fyddai'ch staff yn croesawu'ch ymwneud â'u cadw'n iach, ynteu a yw hyn yn ymyrryd gormod yn eu bywydau preifat? A ydych chi'n gwybod lle mae'r ffin rhwng pryder adeiladol ynglŷn â lles y staff ac ymyrraeth ddiangen?

## Ceisio Ennill Cymeradwyaeth

Darganfu arolwg diweddar gan gwmni cariadon ar-lein Partnership.co.uk fod fflyrtio â'r rheolwr er mwyn ennill dyrchafiad neu symud ymlaen yn y gweithle ar gynnydd. Cyfaddefodd un allan o bob pum gweithiwr y buasen nhw'n fodlon fflyrtio er mwyn symud ymlaen yn y gweithle. Mae hyn yn fwy na dwywaith y nifer bedair blynedd yn ôl. Roedd y ffigwr yn cynnwys dynion a merched.

Fel rheolwr, a oes unrhyw un wedi fflyrtio â chi neu wedi'ch canmol er mwyn ceisio ennill eich cymeradwyaeth? Ydych chi erioed wedi'ch twyllo gan hyn ac wedi gwneud penderfyniad gwael o blaid rhywun? Sut gallwch chi sicrhau nad oes modd i unrhyw un eich cyhuddo o ddangos 'ffafriaeth' tuag at rai aelodau o staff?

## Eich Holl Sylw?

Yn ei lyfr 'Persuasion', honnodd y seicolegydd gwaith rhyngwladol James Borg fod gallu pobl i ganolbwyntio'n mynd a dod mewn tonnau, a'i bod yn amhosibl cynnal eu holl sylw am gyfnodau maith. O ganlyniad i hyn, dywedodd fod ailadrodd pwyntiau allweddol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y neges yn cael ei chyfleu. Ychwanegodd na fyddai pobl, am amrywiaeth eang o resymau, yn cyfaddef bod eu sylw wedi crwydro a'u bod wedi methu rhywfaint o'r wybodaeth a roddwyd iddyn nhw.

Fel rheolwr, pa mor fedrus ydych chi wrth roi cyfarwyddiadau i unigolion neu dimau pan mae arnoch angen rhywbeth wedi'i wneud? Pa dechnegau ydych chi'n eu defnyddio i wirio bod eich cyfarwyddiadau wedi'u cyfleu neu i wybod pa bwyntiau y bydd yn rhaid ichi fynd drostyn nhw eto? Os yw aelod o'ch tîm yn cynhyrchu gwaith anaddas ar ôl camddeall eich cyfarwyddiadau, ydych chi'n tueddu i roi'r bai ar yr unigolyn dan sylw ynteu'n cwestiynu ansawdd eich cyfarwyddiadau chi?

## Ymddygiad Peryglus

Darganfu arolwg newydd gan y Sefydliad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol mai traean yn unig o weithwyr fyddai'n rhoi gwybod i'w cyflogwr am eu rheolwr llinell pe bydden nhw'n gweld tor-rheolau iechyd a diogelwch yn y gweithle.

O ystyried y deddfau iechyd a diogelwch mwy llym a gyflwynwyd eleni, ydych chi'n hyderus bod eich rheolwyr yn rheoli'r risgiau a bod diwylliant diogelwch da yn bodoli yn eich gweithle? Sut gallwch chi sicrhau bod staff yn teimlo'n ddigon hyderus i fynegi eu barn os ydyn nhw'n anhapus â'r ffordd mae iechyd a diogelwch yn cael ei drin yn eu hamgylchedd gwaith?

## Cwsmeriaid Anweledig

Un tro, dywedodd y teicŵn moduron o fri Henry Ford, 'Nid y cyflogwr sy'n talu'r cyflogau. Trin yr arian yn unig mae'r cyflogwyr. Y cwsmer sy'n talu'r cyflogau.'

Efallai fod hyn yn amlwg, ond ai dyma sut mae'ch holl staff yn gweld byd busnes? Mewn sefydliadau mwy, oes yna berygl fod rhai staff yn anghofio'r cysyllt hanfodol rhwng y cwsmer a'r pecyn cyflog os nad ydyn nhw'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid? Sut mae sicrhau'ch bod chi'n atgoffa gweithwyr, ym mhob swydd, o bwysigrwydd diwallu anghenion cwsmeriaid? Os ydych chi mewn sefydliad anfasnachol, a yw'ch staff yn deall yn llawn pwy yw eu cwsmeriaid?

## Rhywbeth Da i'w Ddarllen

"The Momentum Effect" J C Larreche (Cyhoeddiadau Wharton School)
Yn aml, mae llwyddiant mewn busnes yn wibiog, a hyd yn oed ar ôl llwyddo, mae'n anos fyth ei gynnal. Yn y llyfr arbennig hwn, dadleua J C Larreche, athro yn INSEAD, fod cyfrinach cynnal llwyddiant i'w ganfod yn yr hyn mae'n ei alw'n 'the momentum effect'. Wedi ymchwil eang, creda Larreche ei fod wedi darganfod gyrwyr allweddol twf ithriadol mewn sefydliadau, a'r hyn y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud i gynnal y fath dwf rhyfeddol. Mae'n gosod fframwaith syml i eraill ei efelychu, er ei fod yn cydnabod ei bod yn aml yn drafferthus ei roi ar waith.

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council